

Datganiad o Fwriad

CYNLLUNIAU GOFAL

MENTER CAERDYDD



Datganiad o Fwriad

Yn unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru), mae Menter Caerdydd wedi cynhyrchu Datganiad o Fwriad ar gyfer ein Cynlluniau Gofal. Mae hyn yn cynnwys esboniad manwl o nodau ac amcanion Menter Caerdydd, disgrifiad o'r polisi derbyn, cyfleusterau, gweithgareddau a thelerau ac amodau ymddygiad a dderbynnir.

Nodau ac Amcanion:

Mae Menter Caerdydd wedi cael y fraint o drefnu Cynlluniau Gofal Cymraeg i'w cynnal ar safleoedd:

Ysgol Melin Gruffydd, Heol Glan y Nant, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1AG

Ysgol Treganna, Sanatorium Road, Treganna, Caerdydd, CF11 8DG.

Rhif ffôn y Cynlluniau yw 02920689888/07719015852.

Mae'r Cynlluniau yn rhedeg, pan fo lefelau staffio'n caniatáu, yn ystod pob gwyliau ysgol heblaw'r gwyliau Nadolig. Bydd y Cynlluniau ar agor rhwng 8.30am -5.30pm. Croesewir plant rhwng oedran Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6. Gallwn dderbyn uchafswm o 55 o blant yn y ddwy ysgol.

Credwn yn gryf bod merched a bechgyn yn elwa'n sylweddol o fynychu cynlluniau gofal o'r fath gan eu bod yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gymdeithasu, chwarae a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein nod yw darparu amgylchedd hapus, diogel, llawn anogaeth a gofal i blant sy'n mynychu'r cynlluniau, lle gall rhieni fod yn hyderus y bydd eu plant yn cael eu trin yn deg, gyda gofal a pharch.

Bydd gan y staff sydd yn arwain gymwysterau llawn, ac o dan eu harweiniad ein nod yw darparu amgylchedd cyfeillgar lle bydd pob plentyn yn derbyn gofal yn ôl eu hanghenion unigol neilltuol. Byddwn yn sicrhau bod y gymhareb gywir o staff yn gweithio ar y cynlluniau gofal, sef 1:8 ar gyfer plant dan 8 oed ac 1:10 ar gyfer plant 8-11 oed. Bydd gan rai o'r staff gymwysterau Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd, Amddiffyn Plant a Prevent cyfredol.

Bydd y staff yn annog y plant i fod yn hyderus, yn annibynnol ac i ddatblygu eu hunan barch.

Y Plant

Mae'r cynlluniau gofal Cymraeg yn agored i bob plentyn sy'n byw yn ninas Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos ac sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg.

Ein nod yw darparu ar gyfer pob gallu a byddwn yn derbyn plant ac anawsterau dysgu ychwanegol gydag anawsterau corfforol, emosiynol, ac ymddygiadol. Caiff aelod o staff eu penodi i ofalu am blentyn ag anghenion ychwanegol os oes angen. Mae gan Menter Caerdydd yr hawl i wrthod mynediad i'r Cynlluniau Gofal mewn achlysuron arbennig. Rydym yn darparu ar gyfer plant rhwng 4 ac 11 oed.

Mae llefydd wedi eu dyrannu ar sail 'y cyntaf i'r felin' a bydd angen archebu lle o flaen llaw ar ein gwefan. Ni allwn dderbyn archebion dros ebost neu dros y ffôn. Cesglir gwybodaeth am bob plentyn ar ffurflen gofrestru ar-lein a disgwylir i rieni nodi unrhyw gyflyrau meddygol neu anghenion penodol sydd gan eu plentyn.

Cyfleusterau a Gwasanaethau

Ein nod yw darparu gweithgareddau diddorol, corfforol, addysgiadol a llawn hwyl ac anogaeth i'r plant. Credwn fod cynnig amrywiaeth o weithgareddau ble gall y plant adeiladu perthnasoedd wrth gyd-chwarae yn hanfodol i'w llesiant yn dilyn cyfnod o gyfyngiadau. Byddwn yn ystyried anghenion y plant wrth gynllunio gweithgareddau ac amserlenni. Credwn yn gryf na ddylid gwahaniaethu yn erbyn unrhyw blentyn a bydd y staff felly yn dilyn polisi cynhwysiant, gan sicrhau lles a llesiant y plant bob amser.

Mae cyfleusterau digonol i ddarparu dŵr yfed, tai bach a golchi dwylo. Cyfleusterau Melin Gruffydd: Defnydd o neuadd, cegin, toiledau bechgyn a merched, toiledau staff ac iard chwarae tu allan.

Cyfleusterau Treganna: Defnydd o neuadd, cegin, toiledau bechgyn a merched, toiledau staff ac iard chwarae tu allan.

Caiff yr offer a'r arwynebau eu diheintio'n gyson.

Gweithgareddau

Trefnir amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer y plant ar y cynlluniau gofal, gan gynnwys: paentio, tynnu lluniau a lliwio, gemau pêl, gemau tîm, gwneud modelau, canu, gweithgareddau chwaraeon, meddwlgarwch a ioga, drama, dawn, darllen, ysgifennu creadigol a gemau fideo. Rhown flaenoriaeth i geisio trefnu'r gweithgareddau yn Gymraeg ble fo hynny'n bosibl. Caiff pob plentyn y dewis i ymuno neu i beidio ymuno yn ôl eu dewis. Bydd y gweithgareddau yn rhoi cyfleoedd i annog a datblygu galluoedd emosiynol, cymdeithasol, corfforol, creadigol a deallusol y plant, gan gynnwys gallu ieithyddol.

Trefn y dydd

Dyma'n fras drefn y dydd:

8:30	Chwarae rhydd
10:00	Tost a diod (darperir ar y safle)
10:30	Gweithgaredd/Gweithdy (ee Celf, Chwaraeon, Drama)

12:30	Cinio
1:30	Chwarae rhydd (tu allan/tu mewn)
2:00	Gweithgaredd/Gweithdy (ee Gemau, Coginio, Dawns)
3:30	Ffrwyth a diod (darperir ar y safle)
4:00	Chwarae rhydd neu ffilm

Telerau ac Amodau

Mae disgwyl i'r plant ddilyn rheolau a pholisïau'r Cynlluniau Gofal. Mae disgwyl i'r plant siarad Cymraeg, ymddwyn mewn dull cymdeithasol a dangos parch tuag at eraill bob amser.

Staff

Y Personau mewn Gofal ar safle Ysgol Melin Gruffydd yw Chantelle Ohimekpen a Sara James a'r Personau mewn Gofal ar safle Ysgol Treganna yw Manon Paschalis a Melanie Phillips.

Y Person Cofrestredig ar safle Ysgol Melin Gruffydd a safle Ysgol Treganna yw Sian Roberts.

Heulyn Rees yw Prif Weithredwr Menter Caerdydd.

Mae modd cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cynlluniau Gofal at Swyddfa Menter Caerdydd 02920689888 neu

sian@mentercaerydd.cymru

Cwynion

Os bydd unrhyw berson yn dymuno cwyno am y Cynlluniau Gofal fe fydd rhaid iddynt ddilyn y weithdrefn gywir a amlinellir yn llawn yn ein 'Polisi Cwynion'. Y 'Person mewn Gofal' a enwir uchod sy'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw gwynion ar unwaith, ond os caiff cwyn ei gwneud yn erbyn y Person mewn Gofal fe fydd y Person Cofrestredig a'r Prif Weithredwr yn cynnal ymchwiliad. Caiff pob cwyn a wneir gan staff eu cofnodi yn y 'Daflen Cofnodi Digwyddiadau'.

Gall unrhyw berson gyflwyno cwyn i'r AGC am unrhyw agwedd ar ein darpariaeth gwarchod plant. Mae AGC yn awyddus i glywed gan ddefnyddwyr y gwasanaethau am eu profiadau ac am unrhyw bryderon ynghylch gwasanaethau a reoleiddir gan y gwasanaeth.

Os mynegir cwyn neu bryder ynghylch darparwr, bydd AGC yn edrych i weld a yw'n darparu gwasanaeth diogel, neu'n methu a bodloni gofynion ac amodau ei gofrestrriad. Os bydd yr AGC yn ystyried nad yw'n gwneud y pethau hyn, bydd naill ai'n cynnal arolwg ar unwaith

neu'n sicrhau bod yr agwedd hon ar y gwasanaeth yn cael sylw yn yr arolwg nesaf.

Nid asiantaeth ar gyfer ymdrin â chwynion yw'r AGC, ac ni all ddelio â chwynion sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau unigol. Os na all ddelio â'ch cwyn penodol chi, gall eich cyfeirio at y corff sydd yn y sefyllfa orau i'ch cynorthwyo.

Gallwch weld polisi cwynion AGC ar ei gwefan.

www.arolygiaethgofal.cymru

Manylion cysylltu:

Ffôn: 0300 7900 126

E-bost: AGC@llyw.cymru

Ffacs: 0872 437 7301

Twitter - [@Arolygu_gofal](https://twitter.com/Arolygu_gofal)

Facebook - [Arolygu Gofal](https://www.facebook.com/ArolyguGofal)

AGC

Swyddfeydd Cenedlaethol,

Rhyd Y Car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Diogelu, Amddiffyn ac Argyfwng

Heulyn Rees yw Swyddog Amddiffyn Plant Menter Caerdydd.

Byddwn yn cysylltu gyda gwasanaethau cymdeithasol, AGC a efallai'r heddlu os bydd unrhyw ddatgeliad, gonsyrn neu ddigwyddiad penodol yn codi ac yn eu hysbysu ar unwaith am unrhyw bryderon amddiffyn plant. Byddwn hefyd yn hysbysu AGC am unrhyw argyfwng neu ddigwyddiad neu unrhyw newidiadau allweddol yn ein cynlluniau.

Byddwn yn eu hysbysu mewn argyfwng ee os oes plentyn/plant dan 8 oed yn cael damwain ac yn gorfod mynd i'r ysbyty, neu os oes unrhyw ddigwyddiad mawr neu argyfwng arall yn codi. O ran argyfwng yn ein Cynlluniau byddwn yn delio mewn modd priodol a dilyn canllawiau clir ein polisiâu o ran argyfwng tân neu blentyn coll. Cysylltir gyda'r rhieni (galwad ffôn fel arfer) petai unrhyw sefyllfa o'r fath yn codi.

Adolygu a Monitro

Rydym yn adolygu ein Datganiad o Fwriad ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth, gan groesawu adborth rhieni trwy holiaduron ar-lein, yn gyson.